## PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## ADOLYGIAD Y PWYLLGOR DIWYLLIANT O'R IAITH GYMRAEG – YSTYRIED EFFAITH POLISIAU A RHAGLENNU O FEWN CYLCH GWAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI AR YR IAITH GYMRAEG

### Diben

1 Mae'r papur hwn yn ceisio safbwyntiau'r Pwyllgor ar effaith polisïau tai, polisi llywodraeth leol a pholisïau a rhaglenni cynhwysiant cymdeithasol ar yr iaith Gymraeg.

### Argymhelliad

2 Dylai'r Pwyllgor wneud sylwadau ar i ba raddau y mae'r polisïau'n effeithio ar dwf yr iaith Gymraeg.

### Cefndir

3 Mae'r Pwyllgor Diwylliant wrthi'n cynnal adolygiad o'r Iaith Gymraeg ac mae wedi gofyn i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai archwilio ei gyfrifoldebau'n ymwneud â'r Gymraeg, mewn modd integredig, ac ystyried effaith ei waith ar yr iaith. Y bwriad yw canolbwyntio ar i ba raddau y mae'r polisïau'n galluogi neu'n atal twf y Gymraeg.

### I'w Hystyried

<u>Tai</u>

4 Mewn sawl rhan o Gymru, mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o fywyd y gymuned. Dyma pam y mae'r Cynulliad yn cynghori ei bartneriaid i ystyried materion ieithyddol wrth ddatblygu strategaethau tai ac wrth gynllunio darpariaeth tai newydd a gwasanaethau.

5 Mae canllawiau manwl y Cynulliad ar gynllunio a'r Gymraeg yn 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20, Yr Iaith Gymraeg - Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio' ("TAN20") yn cydnabod y gall penderfyniadau ar leoliad tai newydd mewn gwahanol ardaloedd effeithio ar gymeriad yr ardaloedd hynny yn ogystal â'r cydbwysedd ieithyddol. Wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Unedol, cynghorir yr awdurdodau lleol i ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg.

6 O ran tai, mae'r canllawiau'n nodi'n glir y gall polisïau a chynigion i ddarparu tai addas, gan gynnwys tai y gellir eu fforddio, gynorthwyo a bod o fantais i'r ardaloedd hynny sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg. Dylai polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Unedol adlewyrchu goblygiadau dosbarthiad datblygiadau tai mewn gwahanol aneddiadau, ac hefyd effaith cyflwyno rhai datblygiadau fesul rhan er mwyn diwallu'r anghenion tai, tra'n peidio â niweidio sefyllfa'r Gymraeg. Fodd bynnag, ni ddylai polisïau'r Cynllun Datblygu Unedol geisio gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol, na cheisio rheoli deiliaid tai ar sail ieithyddol.

7 Ynghyd â pholisïau cynllunio defnydd tir, mae arferion rheoli tai yn dylanwadu ar y gymysgedd o bobl sy'n byw mewn cymunedau. Sefydlwyd Seinfwrdd Gosod Tai gan y Cynulliad yn ddiweddar i ddarganfod barn pobl ar gyfeiriad gosod tai cymdeithasol yn y dyfodol. Un o amcanion yr ymarfer hwn yw darganfod ffyrdd o alluogi landlordiaid i ddefnyddio dull mwy sensitif o reoli'r stoc o dai cymdeithasol, drwy feithrin hyblygrwydd i ystyried materion diwylliant, iaith a chynaladwyedd, yn ogystal ag anghenion tai. Defnyddir canfyddiadau'r ymarfer hwn wrth lunio polisïau, Gofynion Rheoleiddio a'r Cod Canllaw ar gyfer dyraniadau awdurdodau lleol a digartrefedd.

8 Bu effaith materion tai ar y Gymraeg hefyd yn ddylanwad allweddol ar strategaeth gyffredinol y Cynulliad ar gyfer tai gwledig. Mae camau'n cael eu cymryd ar sawl mater. Mae'r Cynulliad:

- yn cynorthwyo awdurdodau lleol gwledig i gynnal asesiadau o dai lleol er mwyn nodi anghenion a blaenoriaethau tai eu cymunedau;
- wedi darparu mwy o hyblygrwydd ac adnoddau i gynorthwyo mentrau perchnogaeth tai cost isel mewn ardaloedd gwledig;
- wedi gostwng y rhwystrau presennol i dai wedi'u rhentu mewn cymunedau gwledig drwy roi gwell arweiniad a chymorth ariannol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig brynu tai ar gyfer eu rhentu;
- wedi comisiynu ymchwil ar oblygiadau dosbarthiad a defnydd tir ail gartrefi a thai haf mewn ardaloedd gwledig; ac
- wedi ceisio barn y sefydliadau tai ar gyfyngiadau pellach ar Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael mewn ardaloedd gwledig.

9 O ystyried canran uchel y siaradwyr Cymraeg sy'n byw mewn llawer o ardaloedd gwledig, dylai strategaeth tai gwledig y Cynulliad wneud cyfraniad arwyddocaol at warchod y Gymraeg yn yr ardaloedd hynny lle ceir y bygythiad mwyaf iddi fel iaith gymunedol.

Llywodraeth Leol

10 Mae'r safon gydraddoldebau generig ar gyfer llywodraeth leol yn nodi'n benodol y

dylid rhoi ystyriaeth lawn i faterion y Gymraeg ac mae ganddi'r potensial i fod yn esiampl i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol. Mae grp ymgynghorol sy'n cynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn goruchwylio'r broses o sefydlu Uned Gydraddoldeb y WLGA.

11 Dim ond ychydig o gyfeiriadau penodol at y Gymraeg sydd yn y canllawiau ar gyfer strategaethau cymunedol (ceir cyfeiriadau at "gymunedau iaith" a dod â Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhan o'r broses o ddatblygu strategaethau cymunedol). Fodd bynnag, mae'r Cynulliad yn disgwyl gweld gwarchod cymunedau dwyieithog yn brif thema llawer o strategaethau cymunedol, ac yn disgwyl i fentrau iaith lleol a grwpiau ieithyddol eraill gymryd rhan lawn yn y broses o ddatblygu strategaethau. Trafodir y mater hwn mewn seminarau ledled Cymru er mwyn rhannu syniadau ac arfer da ar gyfer datblygu strategaethau cymunedol.

12 Ceir dangosydd Gwerth Gorau penodol ar gyfer mesur cydweithrediad yr awdurdodau â'r cynllun iaith Gymraeg. Mae swyddogion y Cynulliad wrthi'n trafod â Bwrdd yr Iaith Gymraeg sut i berffeithio'r dangosyddion sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb.

13 Mae'n ofynnol i'r Cynulliad yn ôl y gyfraith benodi o leiaf un siaradwr Cymraeg i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol. Yn dilyn y cylch diweddar o benodiadau, bydd dau allan o dri aelod y Comisiwn, o fis Ionawr nesaf ymlaen, yn siarad Cymraeg.

## Cynhwysiant Cymdeithasol

14 Mae gan y Cynulliad ddyletswydd penodol i hybu cynhwysiant cymdeithasol ar draws ei holl gyfrifoldebau. Fel rhan o’r dyletswydd hwn, mae'n cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru a bydd y Pwyllgor yn ei ystyried ar ffurf drafft. Elfen bwysig o sefydlu cyfiawnder cymdeithasol yw diogelu a hybu hawl pobl i ddefnyddio'r Gymraeg i gael mynediad i wasanaethau ac i gyfrannu'n llawn at fywyd trefol a diwylliannol eu gwlad. Bydd hon felly'n agwedd bwysig ar y gwaith a archwilir gan y Pwyllgor ym mis Ionawr, er mwyn sefydlu Amcanion a Thargedau i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

15 Mae canllawiau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf yn ategu egwyddorion Cynllun Cymru. Mae'n nodi mai'r "weledigaeth yw sicrhau bod Cymru’n wlad sydd â diwylliant amlwg a chreadigol, sy’n gwerthfawrogi amrywiaeth; lle mae’r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o fywyd pob rhan o Gymru; a lle mae cysylltiadau cryf rhwng celfyddydau a chwaraeon cymunedol a’n sefydliadau diwylliannol cenedlaethol."

16 Bydd yn rhaid i'r cynigion am arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ddangos eu bod wedi bodloni amcanion y Cynulliad, ac y gallant fynd i'r afael â'r prif achosion o amddifadedd

yn y gymuned.

17 Mae'r canllawiau hefyd yn cynghori'r Partneriaethau i wneud pob ymdrech posibl i ystyried sut y maent yn adlewyrchu natur ddwyieithog a gofynion y gymuned yn eu gweithgareddau. Mae'r canllawiau'n nodi y bydd "y math o ddarpariaeth yn amrywio gan ddibynnu ar leoliad a natur y gweithgaredd ond gallai gynnwys:

- asesu anghenion y gymuned ddwyieithog;
- defnyddio gohebiaeth ddwyieithog;
- trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ac ymgynghoriadau dwyieithog;
- cyflwyno delwedd, e.e. arwyddion, enw, pen llythyr, logo, safwe;
- hyfforddiant a gweithdai dwyieithog."

**Cyswllt**

17. Gwilym Evans, Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Est 5013.